# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd

## Manyleb Ddrafft

I'w addysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw Gymhwyster Sylfaen Cyffredinol a gymeradwywyd i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

DRAFFT

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## CYNNWYS

CRYNODEB O'R ASESU ..... 5
1 CYFLWYNIAD ..... 7
1.1 Nodau ..... 7
1.2 Cwricwlwm i Gymru ..... 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 8
1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm yr Oriau Cymhwyso ..... 8
1.5 Y defnydd o iaith ..... 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 9
2 CYNNWYS Y PWNC ..... 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ..... 10
Uned 1 ..... 11
Uned 2 ..... 20
Uned 3 ..... 33
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ..... 34
3 ASESU ..... 36
3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli ..... 36
3.2 Trosolwg o'r Asesiad ..... 37
3.3 Rheoli'r asesiad ..... 38
3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol ..... 39
4 CAMYMDDWYN ..... 41
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ..... 42
5.1 Cofrestru ..... 42
5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 42
5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ..... 43
5.4 Ailsefyll asesiadau ..... 43
5.5 Ailsefyll y cymhwyster ..... 44
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o Cwricwlwm i Gymru ..... 45
Atodiad B – Uned 3: Nodweddion Ymholiad Mathemategol Effeithiol ..... 48

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy’n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi’u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy’n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw’r unig gorff dyfarnu sy’n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o’r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae’n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, a chynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy’n hygyrch ac yn ennyn diddordeb. Gyda’r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn gallu magu hyder, yn datblygu gwybodaeth hanfodol, yn dod i ddeall sgiliau, ac yn mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yw eu strwythur unedol. Dyma sy’n caniatáu i’r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda’r hyblygrwydd hwn, mae’n bosibl gwneud cynnydd yn raddol, mae llai o bwysau asesu, ac mae’r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw’n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws yr unedau gwahanol. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly’n golygu bod modd cyflawni’n uchel mewn un uned, sydd wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae’r profiad asesu felly’n un cynhwysol a chefnogol ar y sail hon.

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth o gysyniadau a ddatblygodd dysgwyr yn rhan o’u dysgu rhwng 3 ac 14 oed wrth ddilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cysylltu â’r pedwar diben a’r egwyddorion cynnydd, ac yn cefnogi hynny. Er eu bod yn wahanol iawn i’r TGAU, cawsant eu llunio gennym i gynnig sylfaen eang ar gyfer symud ymlaen i’r TGAU cysylltiedig, gan ganolbwyntio ar sgiliau a dealltwriaeth debyg.

P’un a yw dysgwyr yn parhau i astudio’r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy’n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd

## CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Mathemateg a Chyllid mewn Bywyd pob Dydd**
**Portffolio: 3 awr**
**40% o'r cymhwyster**
**60 marc**

**Crynodeb o'r asesu**

Yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg gyflawn.

Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn newid yn flynyddol. Bydd gan y canolfannau hyblygrwydd o ran pryd y byddant yn cyflwyno'r tasgau.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr asesiad hwn.

**Uned 2: Mathemateg Heb Gyfrifiannell**
**Profion testun: 2 x 30 munud**
**30% o'r cymhwyster**
**40 marc**

**Crynodeb o'r asesu**

Yn cael ei osod a'i farcio gan CBAC.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy ddau brawf testun.

Bydd y profion testun yn seiliedig ar y canlynol:
- Prawf A: Rhif a Thebygolrwydd
- Prawf B: Algebra a Geometreg

Bydd y ddau brawf yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol ac atebion byr sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r testunau hyn.

Gall canolfannau ddewis fformat digidol neu bapur o fewn cyfnod asesu pedair wythnos.

Ni chaniateir cyfrifiannell yn yr asesiad hwn.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Uned 3: Trin Data a Mesurau**
**Asesiad ymarferol: 2 dasg (hyd at 2 awr yr un)**
**30% o'r cymhwyster**

**40 marc**

**Crynodeb o'r asesu**

Yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC.

Ar gyfer yr asesiad hwn, bydd y dysgwyr yn cyflawni dau asesiad ymarferol, a fydd yn cymryd cyfanswm o ddwy awr.

- Asesiad 1: Trin data
- Asesiad 2: Mesurau

Caniateir defnyddio cyfrifiannell yn yr asesiad hwn.

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae yna ddwy haen gofrestru ar gyfer Unedau 1 a 2 yn y cymhwyster hwn:
Haen Uwch: Mynediad 3 – Lefel 1
Haen Sylfaenol: Mynediad 1 – Mynediad 3

Nid oes haenau yn Uned 3.

Gellir cofrestru'r dysgwyr ar haenau gwahanol ar draws unedau.

Nid yw trefn unedau yn rhoi awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael o 2028, gydag Uned 3 ar gael yn 2029.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: Cliciwch yma i roi'r rhif achredu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae'r cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd yn cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â mathemateg a rhifedd
- datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o sut mae sgiliau mathemateg a rhifedd yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol ac yn ymwneud â'i gilydd
- defnyddio a chymhwyso symbolau mathemategol i greu a datrys problemau defnyddio sgiliau rhifiadol i ddatrys problemau yn eu cyd-destun a rhai nad ydynt yn eu cyd-destun, fel ei gilydd
- datblygu strategaethau i ddatrys problemau mathemategol
- datblygu eu llythrennedd ariannol i'w cefnogi yn eu bywyd a'u gwaith
- defnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys cyfrifianellau, i helpu i ddatrys problemau mathemategol.

Mae'r nodau hyn wedi eu gosod gan Cymwysterau Cymru yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw sail y cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben wrth astudio ar gyfer y cymhwyster hwn. Yn ganolog i'r cynllun hwn y mae'r egwyddorion cynnydd, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a'r cysyniadau pwnc-benodol hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd yn ogystal â chyfleoedd i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Rydym hefyd wedi ystyried lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodir ar dudalen 34. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru drwy:

- Gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddefnyddio'r system rifau i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- cymhwyso symbolau algebraidd i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol
- archwilio perthnasoedd geometrig sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, a defnyddio mesur i feintioli ffenomena yn y byd ffisegol
- dehongli data drwy ddefnyddio ystadegau, a modelu siawns drwy ddefnyddio tebygolrwydd i gefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

- Cefnogi egwyddorion cynnydd (y pum hyfedredd mathemategol rhyngddibynnol) drwy annog dysgwyr i ddatblygu:
  - Dealltwriaeth gysyniadol
  - Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
  - Rhuglder
  - Rhesymu rhesymegol
  - Cymhwysedd strategol

- Cefnogi'r nodau pwnc-benodol a nodir yn y Meini Prawf Cymeradwyo drwy alluogi'r dysgwyr i:
  - archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â mathemateg a rhifedd
  - datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o sut mae sgiliau mathemateg a rhifedd yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol ac yn ymwneud â'i gilydd
  - defnyddio a chymhwyso symbolau mathemategol i greu a datrys problemau
  - defnyddio sgiliau mathemategol i ddatrys problemau mewn cyd-destun a heb gyd-destun
  - datblygu strategaethau i ddatrys problemau mathemategol
  - datblygu eu llythrennedd ariannol i'w cefnogi yn eu bywyd a'u gwaith
  - defnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys cyfrifianellau, i helpu i ddatrys problemau mathemategol

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16, gan baratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sail eang ar gyfer dilyniant i TGAU Mathemateg a Rhifedd a chymwysterau cysylltiedig eraill. At hynny, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm yr Oriau Cymhwyso

Lluniwyd y cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned a'i bwysoliad o fewn y cymhwyster yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol. Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cyffredinol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5 Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Trwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion dylunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy gydol y cymhwyster, gan gynnwys defnyddio iaith glir a diduedd ac enghreifftiau amrywiol. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maen nhw'n cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai'r dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr ddangos gwybodaeth ffeithiol.
- Mae 'Dylai'r dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o wybodaeth a dealltwriaeth.
- Mae 'Dylai'r dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fydd angen i'r dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

Cyflwynir y cynnwys wedi'i ymhelaethu mewn pedair colofn – Mynediad 1, Mynediad 2, Mynediad 3 a Lefel 1 – er mwyn cynnig eglurder i'r athrawon a'r dysgwyr ac i ddangos cynnydd ar draws lefelau.

Bydd yr asesiad yn defnyddio model cydadferol, gan gydnabod y gallai'r dysgwyr fod yn gryfach mewn rhai meysydd mathemateg nag eraill. Mae hyn yn caniatáu i'r dysgwyr amlygu sgiliau ar draws colofnau gwahanol yn y fanyleb heb iddynt gael eu cyfyngu i un lefel benodol, ac i gael dyfarniad priodol.

Mae Unedau 1 a 2 yn cynnwys haenau. Bydd asesiadau'r haen sylfaenol yn cwmpasu testunau o golofnau Mynediad 1, Mynediad 2 a Mynediad 3. Bydd asesiadau'r haen Uwch yn cwmpasu testunau o golofnau Mynediad 3 a Lefel 1; gan fod pob lefel yn adeiladu ar yr un flaenorol, bydd gwybodaeth am destunau Mynediad 1 a Mynediad 2 yn cael ei thybio ar gyfer yr haen Uwch, ond bydd yr asesiadau'n ffocysu ar destunau Mynediad 3 a Lefel 1.

Nid oes haenau yn Uned 3, felly mae'r holl gynnwys yn berthnasol i bob dysgwr.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 1

**Mathemateg a Chyllid mewn Bywyd Pob Dydd**

Asesiad di-arholiad – Portffolio
40% o'r cymhwyster
60 marc
Yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC.

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno a datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o destunau a chysyniadau sy'n ymwneud â chyllid, a datblygu eu llythrennedd ariannol
- caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a chymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol a chyd-destunau eraill o'r byd go iawn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arian a'r gweithle.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- ddewis a chymhwyso modelau a thechnegau mathemategol sy'n ofynnol ar gyfer bywyd pob dydd a'r byd gwaith, gan gynnwys y defnydd o arian a chymhwyso mathemateg ariannol mewn cyd-destunau o'r 'byd go iawn'.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Meysydd cynnwys**

1.1: Darllen ac ysgrifennu arian cyfred
1.2: Menter a chyllid personol/cartref
1.3: Cymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol
1.4: Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth

| **1.1 Darllen ac ysgrifennu arian cyfred** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>1.1.1 Y system ariannol sy'n cael ei defnyddio yn y DU<br>1.1.2 Cymharu gwerthoedd | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 1.1.1<br>Y system ariannol sy'n cael ei defnyddio yn y DU | Dylai'r dysgwyr wybod y canlynol: | | | |
| | • Bod £1 yn 100c. | | | |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Adnabod ac enwi darnau arian ac arian papur cyffredin y DU hyd at ac yn cynnwys £20.<br>• Cyfateb darnau arian ac arian papur i'w gwerthoedd ysgrifenedig, er enghraifft £1, 20c. | | | |
| | • Ysgrifennu gwerthoedd ariannol mewn ffigurau a defnyddio symbolau cywir (£ a c), hyd at ac yn | • Ysgrifennu gwerthoedd ariannol hyd at ac yn cynnwys £10 mewn ffigurau a geiriau, er enghraifft, £9.52 ar ffurf | • Ysgrifennu gwerthoedd ariannol hyd at ac yn cynnwys £1,000 mewn ffigurau a geiriau, er enghraifft £842.26 ar ffurf | • Ysgrifennu gwerthoedd ariannol hyd at ac yn cynnwys £1,000,000 mewn ffigurau a geiriau. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cynnwys 20c ac £20 mewn punnoedd cyfan. | "naw punt, pum deg dau ceiniog". | "Wyth cant pedwar deg dau punt, dau ddeg chwech ceiniog". | |
| | | • Adnabod gwerth lle pob digid mewn swm o arian a fynegir mewn punnoedd a cheiniogau hyd at ac yn cynnwys £100. | • Adnabod gwerth lle pob digid mewn swm o arian a fynegir mewn punnoedd a cheiniogau hyd at ac yn cynnwys £1,000. | • Adnabod gwerth lle pob digid mewn swm o arian a fynegir mewn punnoedd a cheiniogau hyd at ac yn cynnwys £1,000,000. |
| 1.1.2 Cymharu gwerthoedd | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio geirfa berthnasol i gymharu gwerth arian, gan gynnwys yr un faint â, mwy na, llai na. | | | |
| | • Nodi a oes yna ddigon o arian i brynu eitem cost isel, er enghraifft losin am 10c, diod am £1. | • Cymharu prisiau a dweud pa un yw'r rhataf neu'r drutaf.<br>• Trefnu darnau arian ac arian papur gwahanol, er enghraifft £10, £2, 50c, 2 × 20c | • Cymharu prisiau ar gyfer yr un eitemau a nodi'r pris gorau, gan gynnwys y rheini a roddir mewn punnoedd a cheiniogau, ac mewn ceiniogau, er enghraifft £0.98 a 120c. | • Cymharu a threfnu prisiau<br>• Talgrynnu i'r bunt/geiniog agosaf. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="5">1.2 Menter a chyllid personol/cartref</th></tr>
<tr><td colspan="5">Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>1.2.1 Cyfrifiadau gydag arian<br>1.2.2 Cymhwyso gwybodaeth am arian yn ei gyd-destun</td></tr>
<tr><th rowspan="2">Cynnwys</th><th colspan="4">Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><th>Mynediad 1</th><th>Mynediad 2</th><th>Mynediad 3</th><th>Lefel 1</th></tr>
<tr><td rowspan="4">1.2.1 Cyfrifiadau gydag arian</td><td colspan="4">Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol:</td></tr>
<tr><td>• Cyfrif a chyfuno setiau bach o ddarnau arian i wneud cyfansymiau hyd at ac yn cynnwys 20c.</td><td>• Adio symiau o arian mewn darnau arian i ddod o hyd i'r cyfanswm, er enghraifft £1 + 50c + 5c + 2c.</td><td>• Adio a thynnu symiau o arian mewn darnau arian ac arian papur, gan gynnwys cyfansymiau dros £10, a hyd at ac yn cynnwys £1,000.<br>• Defnyddio adio ailadroddol i ddarganfod cost eitemau a ailadroddir, er enghraifft 3 × 75c ar ffurf 75c + 75c + 75c.</td><td>• Gwneud cyfrifiadau sy'n cynnwys adio, tynnu, lluosi a rhannu arian, gan gynnwys gyda phunnoedd a cheiniogau.</td></tr>
<tr><td>• Cyfrifo'r newid o £1, ar gyfer cost un eitem sy'n werth hyd at £1.<br>• Cyfrifo'r newid o £20, ar gyfer cost un eitem sy'n werth hyd at £20, mewn punnoedd cyfan.</td><td>• Cyfrifo'r newid o £10, ar gyfer cost un eitem sy'n werth hyd at £10.</td><td>• Cyfrifo'r newid o £5, £10, ac £20 mewn cyd-destunau bywyd go iawn.</td><td>• Cyfrifo costau nifer o eitemau a chymhwyso disgowntiau neu gynigion syml, er enghraifft 3 am £2, 10% i ffwrdd.</td></tr>
<tr><td></td><td>• Sylweddoli bod pob £1 mewn £10 yn 10% o £10.</td><td>• Cyfrifo 10% o luosrifau £10 a £100 hyd at £1,000.</td><td></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.2.2 Cymhwyso gwybodaeth am arian yn ei gyd-destun | Dylai'r dysgwyr ddeall egwyddorion sylfaenol cyllid a menter personol/cartref, gan gynnwys: | | | |
| | • Deall bod angen i filiau, gan gynnwys biliau ffôn, nwy a thrydan, gael eu talu'n rheolaidd.<br>• Adnabod ac enwi slipiau cyflog, cyfriflenni a biliau fel dogfennau ariannol pob dydd.<br>• Mewn gweithgareddau prynu a gwerthu syml, deall y cysyniad o elw fel gwneud mwy o arian nag yr ydych yn ei wario, a cholled fel gwneud llai o arian nag yr ydych yn ei wario. | • Sylweddoli bod treth ac Yswiriant Gwladol a didyniadau eraill yn cael eu tynnu o gyflogau. | • Darllen biliau cartref syml a nodi'r swm i'w dalu.<br>• Gwirio nad yw debydau'n fwy na'r gweddill sydd ar gael.<br>• Trefnu debydau a chredydau yn ôl gwerth. | • Gwybod pryd i dalgrynnu i fyny neu i lawr, fel y bo'n briodol.<br>• Y cyfanswm neu'r newid sy'n ofynnol gan ddefnyddio cyfuniad o werthoedd mewn punnoedd a cheiniogau.<br>• Sylweddoli bod i arian tramor werth gwahanol a bod angen ei gyfnewid. |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Cyfrifo cynilion syml, er enghraifft cynilo £2 yr wythnos am 5 wythnos. | • Cymhwyso sgiliau ariannol at sefyllfaoedd pob dydd, fel talu am docynnau bws neu fyrbrydau.<br>• Talgrynnu prisiau i'r £ agosaf, i amcangyfrif cyfanswm y gost. | • Cyfrifo cyfansymiau a newid wrth brynu a gwerthu nifer bach o eitemau.<br>• Cymharu prisiau ar gyfer bargeinion gorau, er enghraifft 2 am £1.50 neu 80c yr un. | • Defnyddio cyfrifiadau arian yng nghyd-destunau'r gweithle, gan gynnwys gwirio anfonebau, slipiau cyflog neu dreuliau.<br>• Cymhwyso strategaethau datrys problemau at senarios ariannol syml, gan gynnwys cyllidebu, cynllunio siopa, cymharu biliau.<br>• Dehongli gwybodaeth am arian tramor a disgrifio |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pam mae angen cyfnewid arian wrth deithio neu wrth brynu nwyddau o dramor. |
| | | • Sylweddoli bod 10% i ffwrdd o eitem sy'n costio £10 yn golygu y byddwch yn talu £9. | • Cyfrifo cost eitem ar ôl disgownt o 10%, lle mae cost yr eitem yn lluosrif 10 neu 100, hyd at £1,000. | • Cyfrifo disgowntiau 10% lle mae 10% o werth yn rhoi punnoedd a cheiniogau, er enghraifft 10% i ffwrdd o £45 = £40.50 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th colspan="5">1.3 Cymhwyso dulliau mathemategol at gyd-destunau personol</th></tr>
<tr><td colspan="5">Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â’r canlynol:<br>1.3.1 Iaith amser mewn perthynas â’u bywyd pob dydd<br>1.3.2 Mesurau a graddfeydd<br>1.3.3 Cyfeiriad a safle</td></tr>
<tr><th rowspan="2">Cynnwys</th><th colspan="4">Ymhelaethiad</th></tr>
<tr><th>Mynediad 1</th><th>Mynediad 2</th><th>Mynediad 3</th><th>Lefel 1</th></tr>
<tr><td rowspan="2">1.3.1<br>Iaith amser mewn perthynas â’u bywyd pob dydd</td><td colspan="4">Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol:</td></tr>
<tr><td>• Adnabod ac enwi diwrnodau’r wythnos a rhannau o’r dydd (bore, prynhawn, gyda’r nos, nos).<br>• Dweud ar ba adeg o’r dydd mae gweithgareddau cyfarwydd yn digwydd, er enghraifft ‘Rwy’n bwyta brecwast yn y bore’.<br>• Defnyddio geirfa gyfarwydd ar gyfer amser, gan gynnwys heddiw, ddoe ac yfory.</td><td>• Defnyddio nifer yr oriau mewn diwrnod a’r diwrnodau mewn wythnos.<br>• Defnyddio geiriau dilyniannu allweddol ar gyfer amser, gan gynnwys cyn, ar ôl, nesaf ac yn ddiweddarach.<br>• Rhoi digwyddiadau pob dydd mewn amserlen, er enghraifft mae’r ysgol yn dechrau cyn cinio canol dydd.<br>• Cysylltu amseroedd digwyddiadau â’u trefn arferol eu hunain, er enghraifft mae’r bws yn dod am hanner awr wedi wyth.</td><td>• Defnyddio nifer y munudau mewn awr, yr oriau mewn diwrnod, a’r diwrnodau mewn wythnos.<br>• Defnyddio amserlenni syml, er enghraifft gwybod pryd mae ffilm yn dechrau neu faint o’r gloch mae trên i fod i adael.<br>• Amcangyfrif a chymharu hyd gweithgareddau cyffredin, er enghraifft mae’n cymryd tua 20 munud i gerdded i’r ysgol.<br>• Defnyddio amserlenni i gynllunio teithiau neu weithgareddau.<br>• Datrys problemau bywyd go iawn syml sy’n ymwneud ag amser, er</td><td>• Defnyddio nifer yr eiliadau mewn munud, y munudau mewn awr, yr oriau mewn diwrnod, y diwrnodau mewn wythnos a’r misoedd mewn blwyddyn.<br>• Gwneud cyfrifiadau’n ymwneud ag amser ar yr un diwrnod.<br>• Creu cynlluniau ac amserlenni syml.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | enghraifft cyfrifo pa mor hir y bydd gweithgaredd yn ei gymryd, neu weithio allan pryd i adael i ddal bws. | |
| | • Cyfateb amseroedd syml ar gloc analog a digidol i drefnau arferol. | • Darllen yr awr a hanner awr ar gloc analog a digidol. | • Darllen cloc analog a digidol yn ôl lluosrifau 5 munud. | • Darllen, ysgrifennu a defnyddio'r amser a ddangosir ar gloc 12 awr a chloc 24 awr. |
| 1.3.2 Mesurau a graddfeydd | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Darllen graddfa sy'n dangos tymereddau cyfanrif o sero i 20. | | • Darllen graddfa sy'n dangos tymereddau uwchlaw ac islaw sero. | |
| | • Cymharu tymereddau o ran bod yn 'boethach' neu'n 'oerach'. | • Cymharu tymereddau cyfanrif positif. | • Cymharu tymereddau cyfanrif positif a negatif. | • Defnyddio llinell rif i gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng rhifau positif a negatif. |
| 1.3.3 Cyfeiriad a safle | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio geirfa fathemategol, gan gynnwys chwith, de, ymlaen, yn ôl, o flaen, tu ôl, o dan, uwchlaw, islaw, i ddisgrifio cyfeiriad a safle. | • Defnyddio'r termau clocwedd a gwrthglocwedd i ddisgrifio troad.<br>• Nodi mesur tro drwy nifer penodol o onglau sgwâr. | • Disgrifio cyfeiriad gan ddefnyddio pedwar pwynt y cwmpawd. | • Adnabod onglau llym, aflym ac atblyg. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **1.4 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â’r canlynol:<br>1.4.1 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 1.4.1 Echdynnu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth | Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Echdynnu gwybodaeth syml o gynrychioliadau gweledol syml, gan gynnwys ffeithlun.<br>• Adnabod ac enwi nodweddion sylfaenol calendr, gan gynnwys diwrnodau’r wythnos, a rhannau o’r diwrnod. | • Sylweddoli bod gwybodaeth yn gallu cael ei chyflwyno mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys mewn ffeithluniau, rhaglenni, tablau a chalendrau. | • Sylweddoli y gall gwybodaeth gael ei chyflwyno mewn ffyrdd ychwanegol, gan gynnwys mewn amserlenni a siartiau. | • Cymhwyso gwybodaeth o ddata gweledol i greu cynlluniau a rhaglenni a all gynnwys sawl cam. |
| | • Cyfateb gwrthrychau neu ddigwyddiadau i symbolau neu eiriau mewn tabl, er enghraifft dydd Llun ac apwyntiad i weld y meddyg. | • Darllen a dehongli gwybodaeth o dablau, rhaglenni a chalendrau syml, er enghraifft ‘Ar ba ddiwrnod mae trip y dosbarth?’ | • Gwneud cymariaethau mewn data gweledol syml, er enghraifft nodi ar ba sgrin ac am faint o’r gloch mae ffilm yn cael ei dangos yn y sinema. | • Cymhwyso dealltwriaeth mewn cyd-destunau llai cyfarwydd, fel dehongli ffeithlun iechyd, siart tywydd syml, neu wybodaeth archebu gwyliau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 2

**Mathemateg Heb Gyfrifiannell**

Profion Testun – 1 awr (2 x 30 munud)
30% o'r cymhwyster
40 marc
Wedi'u gosod gan CBAC ac yn cael eu marcio gan CBAC

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu rhugldder trefniadol y dysgwyr drwy archwilio testunau a chysyniadau mathemategol nad oes angen defnyddio cyfrifiannell ar eu cyfer.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gwaith rhif, algebra, geometreg a thebygolrwydd heb gyfrifiannell.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Meysydd cynnwys**

2.1: Darllen ac ysgrifennu rhifau
2.2: Hyfedredd mewn cyfrifiadau
2.3: Tebygolrwydd
2.4: Algebra
2.5: Geometreg

## 2.1 Darllen ac ysgrifennu rhifau

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:
2.1.1 Gwerth lle
2.1.2 Gwerthoedd cyfwerth
2.1.3 Trefnu rhifau
2.1.4 Talgrynnu ac amcangyfrif

| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 2.1.1 Gwerth lle | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Darllen ac ysgrifennu rhifau wedi'u mynegi mewn geiriau a ffigurau, hyd at ac yn cynnwys 20. | • Darllen ac ysgrifennu rhifau wedi'u mynegi mewn geiriau a ffigurau, hyd at ac yn cynnwys 100. | • Darllen ac ysgrifennu rhifau wedi'u mynegi mewn geiriau a ffigurau, hyd at ac yn cynnwys 1,000. | • Darllen ac ysgrifennu rhifau wedi'u mynegi mewn geiriau a ffigurau, hyd at ac yn cynnwys 1,000,000. |
| | | • Adnabod gwerth lle pob digid mewn rhif hyd at 100. | • Adnabod gwerth lle pob digid mewn rhif hyd at 1,000, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol i 1 lle degol. | • Adnabod gwerth lle rhifau cyfan hyd at 1,000,000, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hysgrifennu ar ffurf ddegol i 2 le degol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.1.2 Gwerthoedd cyfwerth | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Sylweddoli bod haneri a chwarteri siapiau neu wrthrychau yn rhannau o un cyfan. | • Darganfod haneri a chwarteri symiau.<br>• Adnabod cywerthoedd ffracsiynau cyffredin.<br>• Adnabod cywerthoedd ffracsiynau, degolion, a chanrannau cyffredin, gan gynnwys $\frac{1}{2} = 50\% = 0.5$, $\frac{1}{4} = 25\% = 0.25$. | • Adnabod ac ysgrifennu ffracsiynau syml fel $\frac{1}{2}, \frac{1}{4}, \frac{3}{4}, \frac{1}{3}$<br>• Cymharu ffracsiynau â'r un enwadur, er enghraifft, mae $\frac{1}{3}$ yn llai na $\frac{2}{3}$.<br>• Adnabod cywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau cyffredin ychwanegol, gan gynnwys y rhai ar gyfer $\frac{3}{4}$ a lluosrifau $\frac{1}{10}$ | • Trefnu a chymharu ffracsiynau, degolion a chanrannau fel 0.5, 25%, $\frac{1}{4}$, 0.75, $\frac{3}{4}$ |
| 2.1.3 Trefnu rhifau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio geirfa berthnasol i gymharu gwerth rhifau cyfan hyd at 20, gan gynnwys yr un faint â, mwy na a llai na. | | | |
| | • Trefnu rhifau cyfan hyd at ac yn cynnwys 20. | • Trefnu rhifau cyfan hyd at ac yn cynnwys 100.<br>• Trefnu ffracsiynau syml â rhifiadur wedi'i gyfyngu i 1. | • Trefnu rhifau cyfan hyd at ac yn cynnwys 1,000.<br>• Trefnu rhifau cyfan a degolion hyd at 1 lle degol, er enghraifft 2, 1.8, 3.0. | • Trefnu rhifau cyfan hyd at ac yn cynnwys 1,000,000<br>• Trefnu rhifau cyfan a degolion hyd at 2 le degol, er enghraifft 2, 1.8, 2.05, 1.99, 3.0. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><td rowspan="2">2.1.4<br>Talgrynnu ac amcangyfrif</td><td colspan="4">Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol:</td></tr>
<tr><td>• Gosod rhifau hyd at 20 ar linell rif a nodi'r 10 agosaf.</td><td>• Talgrynnu rhifau cyfan i'r 10 agosaf.</td><td>• Talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100 agosaf.<br>• Talgrynnu degolion, a roddir i 1 lle degol, i'r rhif cyfan agosaf.</td><td>• Talgrynnu rhifau cyfan i'r 10, 100, 1,000, ac ati agosaf.<br>• Talgrynnu degolion i un lle degol.<br>• Amcangyfrif datrysiadau i gyfrifiadau rhifiadol drwy frasamcanu'r rhifau yn y cyfrifiadau i rifau cyfan yn unig.</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.2 Hyfedredd mewn cyfrifiadau

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:
2.2.1 Symbolau mathemategol
2.2.2 Adio a thynnu
2.2.3 Lluosi a rhannu
2.2.4 Priodweddau rhifau

| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 2.2.1 Symbolau mathemategol | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Adnabod a dehongli'r symbolau +, – a =. | • Adnabod a dehongli'r symbolau +, – , x, ÷ a =. | • Adnabod y nodiant indecs ar gyfer wedi ei sgwario. | • Adnabod ystyr y symbol $\sqrt{\ }$.<br>• Adnabod ystyr cromfachau mewn cyfrifiad.<br>• Adnabod trefn ddewisol gweithredyddion. |
| 2.2.2 Adio a thynnu | Dylai'r dysgwyr ddeall: | | | |
| | • Geirfa adio a thynnu, gan gynnwys adio, tynnu, minws. | • Perthnasoedd adiol fel bondiau rhif.<br>• Y term 'gwahaniaeth' fel yr angen i ddarganfod faint yn fwy neu'n llai yw un cyfanswm o gymharu ag un arall. | • Yr eirfa swm, gwahaniaeth a chyfanswm. | |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio gwrthrychau neu linell rif i adio rhifau un digid hyd at 20. | • Adio rhifau dau ddigid sy'n rhoi cyfanswm o hyd at 100.<br>• Tynnu rhif un digid o rif dau ddigid. | • Adio a thynnu rhifau cyfan hyd at 1,000 a degolion hyd at ddau le degol. | • Cymhwyso trefn gweithrediadau mathemategol yn gywir ar gyfer adio a thynnu, gan gynnwys y defnydd o gromfachau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Nodi mai tynnu yw gwrthwyneb adio. | • Defnyddio adio i wirio tynnu. | | • Adio ffracsiynau bondrwm â'r un enwadur, er enghraifft $\frac{3}{8}+\frac{4}{8}$. |
| 2.2.3 Lluosi a rhannu | Dylai'r dysgwyr ddeall: | | | |
| | • Ystyr y term 'dyblu'. | • Geirfa lluosi a rhannu, gan gynnwys lluosi, haneru, rhannu, grwpio. | | |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio'r term 'dwbl'.<br>• Grwpio neu rannu gwrthrychau a symiau bach yn grwpiau o faint hafal. | • Galw i gof a chyfrifo lluosymiau rhifau hyd at 10 gyda thablau 2, 3, 4, 5 a 10.<br>• Nodi mai rhannu yw gwrthwyneb lluosi.<br>• Darganfod hanner eilrif.<br>• Darganfod chwarter rhif sy'n rhanadwy â 4. | • Galw i gof a chyfrifo lluosymiau rhifau hyd at $10 \times 10$.<br>• Cymhwyso gwybodaeth am dablau lluosi i rannu ac i ddatrys problemau. | • Cymhwyso trefn y gweithrediadau mathemategol yn gywir yn achos lluosi a rhannu, gan gynnwys y defnydd o gromfachau. |
| | | • Deall perthnasoedd lluosol, er enghraifft, $2 \times 3 = 3 \times 2$. | • Lluosi cyfanrif 1 neu 2 ddigid positif â 10. | • Lluosi rhifau 2 ddigid a 3 digid â rhif 2 ddigid.<br>• Lluosi a rhannu rhif cyfan neu ddegolyn â 10 neu 100, er enghraifft,<br>$400 \div 100$<br>$3.6 \times 10$<br>$4.5 \div 10$<br>$2.75 \times 100$ |
| | | | • Cyfrifo ffracsiwn uned swm, fel $\frac{1}{5}$ o 20. | • Cyfrifo ffracsiwn swm, fel $\frac{4}{5}$ o 30.<br>• Cyfrifo canran swm, fel 15% o 480. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Cyfrifo 1%, 10%, 25%, 50%, 75% o swm. | |
| 2.2.4 Priodweddau rhifau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Adnabod odrifau ac eilrifau | • Defnyddio priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys lluosrifau a ffactorau, ar gyfer tablau lluosi 2, 5 a 10. | • Defnyddio priodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys lluosrifau a ffactorau, ar gyfer tablau lluosi hyd at $10 \times 10$. | • Estyn y defnydd o briodweddau cyffredin rhifau, gan gynnwys darganfod ffactorau cyffredin neu luosrifau dau rif, fel 12 ac 18.<br>• Deall bod gan rifau sgwâr nifer odrif o ffactorau. |
| | | | • Adnabod rhif sgwâr hyd at ac yn cynnwys 100. | • Nodi ail isradd rhif sgwâr hyd at ac yn cynnwys 100.<br>• Nodi'r pum rhif cysefin cyntaf, sef 2, 3, 5, 7, 11. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **2.3 Tebygolrwydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>2.3.1 Iaith tebygolrwydd | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 2.3.1 Iaith tebygolrwydd | Dylai'r dysgwyr wybod y canlynol: | | | |
| | | | | • Ystyr y termau 'siawns deg', 'sicr', 'tebygol', 'annhebygol' ac 'amhosibl' |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | | | • Deall a defnyddio'r termau 'bydd yn digwydd', 'gallai ddigwydd', 'ni fydd yn digwydd' i ddisgrifio tebygolrwydd digwyddiadau. | • Deall a defnyddio geirfa tebygolrwydd, gan gynnwys y syniadau o ansicrwydd a risg.<br>• Deall a defnyddio'r raddfa tebygolrwydd o 0 i 1, gan gynnwys gosod digwyddiadau ar raddfa tebygolrwydd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **2.4 Algebra** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>2.4.1 Peiriannau ffwythiant<br>2.4.2 Hafaliadau a fformiwlâu<br>2.4.3 Dilyniannau<br>2.4.4 Cyfesurynnau ar blân $(x, y)$ | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 2.4.1 Peiriannau ffwythiant | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Cyfrifo allbwn o beiriant ffwythiant un cam. | • Cyfrifo allbwn o beiriant ffwythiant dau gam.<br>• Cyfrifo'r mewnbwn o beiriant ffwythiant un cam. | • Cyfrifo mewnbwn o beiriant ffwythiant dau gam.<br>• Amnewid cyfanrif positif i fformiwla un cam syml wedi'i mynegi mewn geiriau. | • Defnyddio confensiynau sylfaenol algebra, fel:<br>$3a$ yn lle $a + a + a$ neu $3 \times a$<br>$y$ yn lle $1y$<br>$a^2$ yn lle $a \times a$<br>$\frac{a}{b}$ yn lle $a \div b$<br>• Amnewid rhifau cyfan i fformiwlâu syml gyda hyd at ddau gam wedi'u mynegi mewn geiriau neu symbolau.<br>• Ysgrifennu mynegiad sy'n cynnwys swm, gwahaniaeth neu luoswm. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.4.2 Hafaliadau a fformiwlâu | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Dehongli'r defnydd o symbol i gynrychioli 'rhif y mae angen ei adio', er enghraifft $7 + t = 10$ | • Dehongli'r defnydd o symbol fel rhif anhysbys, er enghraifft, ♦+ ♦ = 12. | • Dehongli'r defnydd o lythyren i sefyll am rif anhysbys wrth adio hyd at gyfanswm o 50, er enghraifft $x + 4 = 10$, $y + y = 20$. | |
| | • Darganfod gwerth rhif anhysbys drwy 'adio ymlaen'. | • Darganfod gwerthoedd posibl y gellir eu hadio i fod yn hafal i rif. | • Datrys hafaliadau llinol sy'n cynnwys adio. | • Datrys hafaliadau llinol sy'n cynnwys adio, tynnu neu luoswm, e.e. $7x = 14$, $10 - x = 3$. |
| 2.4.3 Dilyniannau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio'r termau cyntaf, ail, trydydd, pedwerydd a phumed i ddilyniannu digwyddiadau.<br>• Nodi'r eitem gyntaf, a'r ail, y drydedd, y bedwaredd a'r bumed mewn dilyniant. | | | |
| | • Cwblhau dilyniant sy'n cynyddu neu'n lleihau mewn camau o ddau yn y cyfwng 0 i 20. | • Cwblhau dilyniant sy'n cynyddu neu'n lleihau mewn camau o 2, 3, 5 neu 10 yn y cyfwng 0 i 100. | • Parhau dilyniant rhif syml a disgrifio'r rheol i ddarganfod y term nesaf.<br>• Parhau dilyniant o batrymau diagramau. | • Cyfrifo term nesaf dilyniant llinol.<br>• Disgrifio, mewn geiriau, y rheol ar gyfer parhau dilyniant llinol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| 2.4.4 Cyfesurynnau ar blân $(x, y)$ | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Defnyddio disgrifyddion pob dydd i nodi safle, er enghraifft 'y rhes flaen, y drydedd sedd o'r chwith', 'y sgwâr uchaf ar y dde'. | • Defnyddio confensiynau enwi i ddisgrifio safle ar gynllun neu fap, er enghraifft F4 fel sedd benodol mewn sinema, neu sgwâr B3 ar fap syml. | • Plotio pwyntiau a lleoli cyfesurynnau yn y pedrant cyntaf. | • Plotio pwyntiau a lleoli cyfesurynnau ym mhob un o'r pedwar pedrant. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.5 Geometreg

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:
2.5.1 Priodweddau siapiau
2.5.2 Perimedr ac arwynebedd

| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 2.5.1 Priodweddau siapiau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Enwi siapiau 2D a 3D cyffredin, gan gynnwys cylch, sgwâr, petryal, triongl, ciwb, sffêr, silindr, pyramid a chôn. | • Enwi siapiau 2D a 3D cyffredin yn ychwanegol at y rhai ar lefel Mynediad 1, gan gynnwys pentagon, hecsagon, hanner cylch a chiwboid. | • Enwi siapiau 2D a 3D cyffredin yn ychwanegol at y rhai ar lefel Mynediad 2, gan gynnwys paralelogram, octagon, triongl ongl sgwâr, triongl isosgeles, triongl hafalochrog, triongl anghyfochrog a phrism triongl. | • Enwi rhannau cylch: radiws, diamedr, tangiad, cylchedd, cord. |
| | • Didoli siapiau yn ôl eu priodweddau, gan gynnwys ymylon syth, corneli ac wynebau. | • Adnabod adlewyrchiad fel drychddelwedd o siâp mewn llinell cymesuredd fertigol.<br>• Defnyddio'r term 'cymesur' i ddisgrifio neu adnabod siapiau. | • Adnabod llinellau cymesuredd fertigol a llorweddol.<br>• Adnabod adlewyrchiad llorweddol neu fertigol siâp.<br>• Nodi pan fydd gan siâp gymesuredd cylchdro. | • Adlewyrchu siâp mewn llinell ddrych fertigol neu lorweddol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.5.2 Perimedr ac arwynebedd | Dylai'r dysgwyr wybod y canlynol: | | | |
| | • Mai'r perimedr yw'r pellter o amgylch amlinell siâp. | • Mai'r arwynebedd yw swm y gofod ar arwyneb siâp. | | • Bod nodi marciau toredig ar ddwy neu ragor o ochrau siâp yn dynodi ochrau o'r un hyd. |
| | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | | • Darganfod perimedr neu arwynebedd petryal sydd wedi'i luniadu ar bapur sgwariau cm. | • Darganfod perimedr neu arwynebedd petryal sydd heb ei luniadu ar bapur sgwariau cm. | • Cyfrifo perimedr y trionglau arbennig, sef isosgeles a hafalochrog.<br>• Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau unionlin sydd heb eu lluniadu ar bapur sgwariau.<br>• Amcangyfrif arwynebedd siapiau afreolaidd drwy gyfrif sgwariau a rhannau o sgwariau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Uned 3

**Trin data a mesurau**

Asesiad ymarferol – 2 dasg (hyd at 2 awr yr un)
30% o'r cymhwyster
40 marc
Yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan, a'i gymedroli gan CBAC.

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- cyflwyno a datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o destunau a chysyniadau sy'n ymwneud â thrin data a mesurau
- galluogi dysgwyr i gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau mathemategol cysylltiedig at gyd-destun 'byd go iawn'.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- dewis a chymhwyso dulliau a thechnegau sy'n berthnasol i drin data a mesurau i gynrychioli, dadansoddi a dehongli gwybodaeth mewn cyd-destun 'bywyd go iawn'
- cyfleu gwybodaeth fathemategol ar amrywiaeth o ffurfiau.

Mae nodweddion ymholiad mathemategol effeithiol i'w gweld yn Atodiad B.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Uned 3** | |
|---|---|
| Mae angen i’r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau mathemategol yn y canlynol:<br>• 3.1: Archwilio, casglu a chofnodi data<br>• 3.2: Trefnu a chynrychioli data<br>• 3.3: Dadansoddi a dehongli data<br>• 3.4: Mesurau a ddefnyddir mewn bywyd pob dydd | |
| **Adran** | **Ymhelaethiad** |
| 3.1: Archwilio, casglu a chofnodi data | Dylai’r dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddulliau gwahanol o gasglu data a’u cyfyngiadau<br>• ffyrdd gwahanol o drefnu a grwpio data<br><br>Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dewis dull priodol i gasglu data ar gyfer ymchwiliad ac esbonio eu dewis<br>• casglu a chofnodi data ar gyfer ymchwiliad<br>• gwirio data a chywiro unrhyw wallau a allai effeithio ar y canlyniadau<br>• trefnu neu grwpio data mewn ffordd briodol |
| 3.2: Trefnu a chynrychioli data | Dylai’r dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• ddulliau gwahanol o drefnu a chyflwyno data<br>• sut mae’r dewis o labeli, graddfeydd, cyfyngau a theitlau yn effeithio ar ddehongliad o ddata<br><br>Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dewis ffordd briodol o drefnu a chyflwyno data<br>• defnyddio labeli, graddfeydd, cyfyngau a theitlau cywir |
| 3.3: Dadansoddi a dehongli data | Dylai’r dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i ddehongli data<br><br>Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi nodweddion data<br>• gwneud cymariaethau a nodi patrymau mewn data<br>• dod i gasgliad yn dilyn ymchwiliad |
| 3.4: Mesurau a ddefnyddir mewn bywyd pob dydd | Dylai’r dysgwyr fod yn ymwybodol o:<br>• offer mesur gwahanol<br>• effaith mesuriadau anghywir<br><br>Dylai’r dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adnabod mathau gwahanol o fesurau pob dydd a gwahaniaethu rhyngddynt<br>• defnyddio offer mesur i fesur meintiau<br>• darllen a dehongli graddfeydd a mesurau i gymharu mesurau |

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Mae'r cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- Gweithio'n annibynnol ac yn gydweithredol.
- Ennill profiad a gwerthfawrogiad o'r rôl mae mathemateg yn ei chwarae mewn pynciau a meysydd eraill o'r cwricwlwm.
- Ennill ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o rai o'r gyrfaoedd a meysydd cysylltiedig â gwaith sy'n defnyddio mathemateg.
- Cael mynediad at dasgau cyfoethog sy'n ysgogi chwilfrydedd, yn meithrin gwytnwch, ac yn gofyn i ddysgwyr fod yn ddyfeisgar.
- Ymgymryd â gwaith ymarferol sy'n caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau mathemategol y tu mewn a'r tu allan i leoliad yr ystafell ddosbarth.
- Wynebu problemau cyfarwydd ac anghyfarwydd.

Mae ymhelaethiad pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad A. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/ganolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion Asesu a Phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i'r dysgwyr:

**AA1**
Galw i gof a defnyddio eu gwybodaeth am y cynnwys penodedig

**AA2**
Dewis a defnyddio dulliau mathemategol

**AA3**
Dehongli a dadansoddi problemau a defnyddio rhesymu mathemategol i'w datrys.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 20% | 12% | 8% | 40% |
| Uned 2 | 24% | 6% | - | 30% |
| Uned 3 | 6% | 12% | 12% | 30% |
| Pwysoliad cyffredinol | **50%** | **30%** | **20%** | **100%** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.2 Trosolwg o'r Asesiad

**Uned 1: Mathemateg a Chyllid mewn Bywyd Pob Dydd**
Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy bortffolio. Bydd portffolio pob dysgwr yn cynnwys chwe thasg gyflawn. Bydd pob tasg yn archwilio amrywiaeth o sgiliau mathemategol wedi'u gosod yng nghyd-destun bywyd go iawn.

Bydd y tasgau'n cael eu gosod gan CBAC a byddant yn newid yn flynyddol. Bydd gan y dysgwyr yr hyblygrwydd i gwblhau'r tasgau portffolio hyn yn ystod y flwyddyn. Bydd y portffolio'n cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC.

Bydd canolfannau'n gallu dewis o blith dwy set o dasgau ar gyfer eu dysgwyr (haenau sylfaenol ac uwch). Bydd y ddwy set o dasgau'n cynnwys tasgau cyffredin.
**Set 1 (haen sylfaenol):** Tasgau 1-6
**Set 2 (haen uwch):** Tasgau 5-10

Caniateir defnyddio cyfrifiannell wrth asesu'r uned hon.

**Uned 2: Mathemateg Heb Gyfrifiannell**
Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i'r dysgwyr wneud dau brawf testun.
**Prawf A:** Rhif a Thebygolrwydd
**Prawf B:** Algebra a Geometreg

Bydd y profion yn cynnwys cwestiynau mathemategol heb gyd-destun yn bennaf, gan brofi gwybodaeth a sgiliau mathemategol sylfaenol y dysgwyr.

Bydd canolfannau'n gallu dewis o blith dwy set o dasgau ar gyfer eu dysgwyr (haenau sylfaenol ac uwch).
**Set 1 (haen sylfaenol):** Prawf sy'n cwmpasu testunau mathemategol o Fynediad 1 i Fynediad 3
**Set 2 (haen uwch):** Profion sy'n cwmpasu testunau mathemategol o Fynediad 3 i Lefel 1

**Ni** chaniateir cyfrifiannell wrth asesu'r uned hon.

Bydd y profion testun yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau, gan gynnwys cwestiynau dewis lluosog, cwestiynau prawf gwrthrychol a chwestiynau ateb byr, a byddant ar gael mewn fformat digidol ac ar bapur. Bydd pob prawf yn werth 20 marc yr un, gan roi cyfanswm o 40 marc.

Bydd y profion testun ar gael i'w cwblhau o fewn cyfnod pedair wythnos, gyda'r asesiad cyntaf yn cael ei gynnal yn Haf 2028.

Bydd canolfannau'n cael dewis cwblhau'r profion hyn ar sgrin neu ar bapur.

Bydd pob prawf testun yn cymryd 30 munud i'w gwblhau. Nid oes rhaid i ymgeisydd gwblhau'r holl brofion yn yr un sesiwn, ond rhaid iddo gwblhau pob prawf unigol yn y sesiwn. Rhaid i'r prawf gael ei sefyll dan amodau arholiad a oruchwylir. Gellid gwneud hyn yn yr ystafell ddosbarth. Gweler gofynion yr CGC: http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations am fanylion.

CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r profion.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

**Uned 3: Trin data a mesurau**
Ar gyfer yr asesiad hwn, bydd y dysgwyr yn cyflawni dau asesiad ymarferol, a fydd yn cymryd cyfanswm o hyd at bedair awr.
**Tasg 1:** Trin data
**Tasg 2:** Mesurau

Bydd CBAC yn nodi'r tasgau generig a'r sgiliau mathemategol a rhifiadol y mae'n rhaid i ddysgwr eu dangos yn ei asesiadau ymarferol. Bydd y sgiliau hyn yn aros yr un fath ar hyd oes y cymhwyster. Bydd gan ganolfannau yr hyblygrwydd i roi'r tasgau mewn cyd-destun i adlewyrchu cyd-destunau'r byd go iawn; bydd hyn yn caniatáu i'r dysgwyr gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol.

Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC.

Ni fydd yr asesiadau ar gyfer yr uned hon yn cynnwys haenau.

Caniateir defnyddio cyfrifiannell wrth asesu'r uned hon.

## 3.3 Rheoli'r asesiad

Caiff pob uned ei hasesu drwy asesiadau di-arholiad. Mae'r elfen ddi-arholiad wedi'i strwythuro ar draws tri chyfnod allweddol: gosod tasgau, gwneud tasgau, a marcio tasgau.

Rhaid i bob asesiad di-arholiad gadw at y cyfarwyddiadau sy'n rhan o ddogfen yr CGC, *Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau Di-arholiad (Cymwysterau Galwedigaethol a Thechnegol).* Noder **nad** yw canllawiau'r CGC ar gyfer *Manylebau TAG a TGAU* yn berthnasol i'r cymhwyster hwn.

**Gosod Tasgau**
Darperir pecynnau asesu ar gyfer pob uned yn unol â'r trefniadau a nodir yn 3.2.

**Gwneud Tasgau**
Mae'r broses o gwblhau'r asesiad di-arholiad yn cael ei llywio gan reolaethau mewn pum maes: amser, adnoddau, goruchwyliaeth, dilysu a chydweithredu.

- Amser: Mae pob pecyn asesu yn nodi cyfanswm yr amser sydd ar gael neu bydd yn nodi nad oes cyfyngiad amser; rhoddir amser a awgrymir ar gyfer pob tasg, er y gall ymgeiswyr ddyrannu'r amser hwn ar draws tasgau fel y bo'n briodol.
- Adnoddau: Bydd unrhyw ofynion adnoddau penodol yn cael eu hamlinellu yn y pecyn asesu.
- Goruchwylio a dilysu: Fel arfer, dylai'r dysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau tasgau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddynt beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu.
- Cydweithredu: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i'r dysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro a'r dysgwr, fel ei gilydd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

**Marcio Tasgau ar gyfer asesiad di-arholiad a asesir yn fewnol (Unedau 1 a 3)**

Rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro dynodedig sydd ag arbenigedd pwnc priodol, gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a ddarperir yn y pecyn asesu. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Mae'n rhaid anodi tystiolaeth ysgrifenedig er mwyn dangos sut mae'n bodloni'r meini prawf marcio.

Lle bo angen, rhaid dogfennu tystiolaeth o berfformiad (e.e. cyflwyniadau) gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol.

Mae athrawon yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:
- bod yr asesiad yn cael ei gynnal yn unol â disgwyliadau'r pecyn asesu a chanllawiau'r CGC
- bod dyfarniadau yn cael eu gwneud yn erbyn y datganiadau band perfformiad yn unig
- bod y dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir
- pan ddefnyddir cofnodion arsylwi, eu bod yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu.

## 3.4 Ailgyflwyno asesiadau di-arholiad wedi'u hasesu'n fewnol

Yn Unedau 1 a 3 lle mae'r ganolfan yn asesu'r Asesiad Di-arholiad, gall athrawon ganiatáu un cyfle i'r dysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w marcio cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol ddigon ymlaen llaw i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau'r asesiad cyflawn cyn i'w gwaith gael ei farcio yn y lle cyntaf, a chyn awdurdodi unrhyw ailgyflwyno sydd ei angen.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:
- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- osgoi cyfarwyddo dysgwyr ar sut i wella eu marc
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Ni ddylai athrawon:
- ganiatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei farcio.

Nid yw'n ofynnol i'r dysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth ar gyfer ailgyflwyniad. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle na wnaethant ennill y marc a ddymunwyd. O ganlyniad, efallai na fydd angen yr amser llawn a nodir yn y pecyn asesu, er y gallant ddefnyddio hyd at y dyraniad llawn os oes angen. Mae'r pecyn asesu yn nodi faint o amser yn fras y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau pob tasg. Pan fydd dysgwyr yn canolbwyntio ar dasgau penodol i'w hailgyflwyno, ni ddylai'r amser a ganiateir fod yn fwy na chyfanswm yr amser a awgrymir ar gyfer y tasgau hynny.

Nid oes angen creu taflen cyflwyno marciau ymgeisydd ar wahân i'w hailgyflwyno; gellir diweddaru'r daflen wreiddiol gyda'r marciau diwygiedig a sylwadau ychwanegol. Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, a fydd yn ddefnyddiol os bydd ymholiadau'n codi. Dim ond y marciau terfynol a'r dystiolaeth sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni chaniateir ailgyflwyno'r un asesiad eto. Un cyfle sydd ar gael i'r dysgwyr ailsefyll yr asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol. Wrth ailsefyll asesiad, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio briff yr asesiad a ryddhawyd ar gyfer y gyfres honno (gweler Adran 5.4).

**Noder** – Ar gyfer Uned 2, **ni ddylai** athrawon ganiatáu cyfle ychwanegol i'r dysgwyr wella eu tystiolaeth cyn cyflwyno'r gwaith i CBAC i'w farcio. **Rhaid i athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu.**

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, bydd yr athro'n gyfrifol am roi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i'r ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer y cymhwyster Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn yr CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Unedau 1 a 2 ar gael i'w cyflwyno ym mis Mehefin 2028 (a phob mis Mehefin wedi hynny). Bydd Uned 3 ar gael i'w chyflwyno ym mis Mehefin 2029 (a phob mis Mehefin wedi hynny).

Rhaid cofrestru ar gyfer unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod:

| | | **Codau Cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Haen Uwch<br>Portffolio | | |
| | Haen Sylfaenol<br>Portffolio | | |
| **Uned 2** | Haen Uwch<br>Profion Testun – Ar bapur | | |
| | Haen Uwch<br>Profion Testun – Ar sgrin | | |
| | Haen Sylfaenol<br>Profion Testun – Ar bapur | | |
| | Haen Sylfaenol<br>Profion Testun – Ar sgrin | | |
| **Uned 3** | Asesiadau Ymarferol | | |

## 5.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|---|
| **Cod cyfnewid** | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 5.3 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae'r Cymhwyster CBAC Sylfaen Lefel Mynediad / Lefel 1 Mathemateg a Rhifedd yn cael ei adrodd ar raddfa pedwar pwynt: Llwyddiant Mynediad 1, Llwyddiant Mynediad 2, Llwyddiant Mynediad 3 a Llwyddiant Lefel 1 (a Llwyddiant Lefel 1 yw'r radd uchaf). Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau unffurf i ennill Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Adroddir canlyniadau unedau unigol ar raddfa marciau unffurf (GMU) ac maen nhw'n cyfateb i'r graddau canlynol:

| | UCHAFSWM | Pwysoli | GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 60 | 40% | 100 | 80 | 60 | 40 | 20 |
| **Uned 2** | 40 | 30% | 75 | 60 | 45 | 30 | 15 |
| **Uned 3** | 40 | 30% | 75 | 60 | 45 | 30 | 15 |

Ar gyfer Uned 1, uchafswm y marciau unffurf a fydd ar gael yn haen sylfaenol yr asesiad fydd 79 (h.y. 1 marc unffurf yn is na'r isafswm gofynnol i gyflawni Lefel 1 yn yr uned). Ar gyfer Uned 2, uchafswm y marciau unffurf a fydd ar gael yn haen sylfaenol yr asesiad fydd 59.

Bydd GMU sy'n cyfateb i'r marc a enillir yn yr asesiad hwn yn cyfrannu tuag at y cymhwyster.

| | UCHAFSWM | Pwysoli | GMU | Lefel 1 | Mynediad 3 | Mynediad 2 | Mynediad 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyfarniad Pwnc** | 100 | 100% | 250 | 200 | 150 | 100 | 50 |

## 5.4 Ailsefyll asesiadau

Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 2, yr asesiad sy'n cael ei farcio gan CBAC, ddwywaith (tri chynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gorau o'r tri chynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Gall ymgeiswyr ailsefyll Uned 1 ac Uned 3, yr asesiadau sy'n cael eu marcio gan y ganolfan, unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y sgôr marciau unffurf gorau o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol.

Wrth ailsefyll asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno asesiad newydd, wedi'i gwblhau o fewn yr un lefelau rheolaeth. Ni chânt wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol.

Os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod wedi'i gofnodi yn absennol (a), nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Os cofnodir bod ymgeisydd wedi cael '0' marc, yna tybir nad oedd y dystiolaeth a gynhyrchwyd i'w hasesu yn haeddu marciau; bydd hyn yn cyfrif fel ymgais.

Wrth ailsefyll asesiad, ar yr amod nad yw'r ymgeisydd wedi defnyddio mwy na'r nifer mwyaf o gynigion, bydd marciau o'r unedau eraill yn cael eu trosglwyddo.

Os bydd ymgeisydd yn mynd dros y nifer o gynigion ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddo ailsefyll y cymhwyster.

## 5.5 Ailsefyll y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer Uned 2, yr asesiad sy'n cael ei farcio gan CBAC, am y pedwerydd tro, neu ar gyfer Unedau 1 neu 3, yr asesiadau sy'n cael eu marcio gan y ganolfan, am y trydydd tro, yna bydd yn rhaid iddo ailgofrestru ac ailsefyll pob asesiad.

Wrth ailsefyll cymhwyster, gall ymgeisydd gael hyd at dri chynnig ar Uned 2, yr asesiad sy'n cael ei farcio gan CBAC, a hyd at ddau gynnig ar Unedau 1 a 3, yr asesiadau di-arholiad sy'n cael eu marcio gan y ganolfan. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd/graddau newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | | ✓ |
| Cynaliadwyedd | ✓ | | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i lunio casgliadau a gwneud penderfyniadau gwybodus | ✓ | | ✓ |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | | | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | | |
| Cynhyrchu | | | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | | | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Atodiad B – Uned 3: Nodweddion Ymholiad Mathemategol Effeithiol

3.1: Casglu a chofnodi data
3.2: Trefnu/Cynrychioli data
3.3: Dadansoddi/Dehongli data
3.4: Mesurau a ddefnyddir mewn bywyd pob dydd

| **3.1 Casglu a chofnodi data** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>3.1.1 Archwilio, casglu a chofnodi data<br>3.1.2 Trefnu eitemau | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 3.1.1 Archwilio, casglu a chofnodi data | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Archwilio, casglu a chofnodi data arwahanol, hyd at 20 eitem, sydd i'w canfod yn eu hamgylchedd eu hunain, er enghraifft mewn ystafell ddosbarth neu gartref.<br>• Casglu canlyniadau mewn ffordd strwythuredig, gan gynnwys defnyddio ticiau, lluniau a marciau cyfrif. | • Archwilio, casglu a chofnodi data arwahanol sydd i'w canfod mewn cyd-destunau cyfarwydd, er enghraifft siop neu barc lleol.<br>• Llenwi tabl amlder a dehongli amlder fel sawl gwaith y mae gwerth yn ymddangos.<br>• Gwirio a yw'r nifer a ddymunir o eitemau wedi cael eu casglu. | • Archwilio, casglu a chofnodi data arwahanol mewn ffordd drefnus, er enghraifft mewn tabl.<br>• Adnabod canlyniadau penderfyniadau wrth gofnodi data, gan gynnwys sylweddoli bod gwallau wrth gofnodi yn effeithio ar ganlyniadau a chymariaethau. | • Cynllunio a chynnal archwiliad i gasglu a chofnodi data arwahanol o amrywiaeth o gyd-destunau.<br>• Llenwi siart cyfrif ar gyfer data arwahanol wedi'u grwpio, er enghraifft 0-9, 10-19, 20-29. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1.2 Trefnu eitemau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Trefnu a dosbarthu eitemau i ddau grŵp drwy ddefnyddio un maen prawf er enghraifft lliw, siâp neu faint, gan gynnwys trefnu mewn diagram Venn â chylchoedd ar wahân. | • Trefnu a dosbarthu eitemau drwy ddefnyddio dau faen prawf, gan gynnwys defnyddio diagram Venn â dau gylch sy'n gorgyffwrdd mewn sefyllfa ymarferol. | • Trefnu a dosbarthu eitemau i ddiagram Venn a diagram Carroll, gan gynnwys diagram Venn â chylchoedd sy'n gorgyffwrdd ac eitemau sydd y tu allan i'r cylchoedd.<br>• Esbonio dewisiadau wrth drefnu data. | • Llenwi tabl dwyffordd. |

## 3.2 Trefnu/Cynrychioli data

Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:
3.2.1 Trefnu a chynrychioli data

| Cynnwys | Ymhelaethiad | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 3.2.1 Trefnu a chynrychioli data | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Llunio diagram bloc a phictogram gyda delwedd yn cynrychioli un eitem o'r data. | • Llunio siart bar lle mae pob bar yn cynrychioli un eitem. | • Llunio graffiau llinell a phictogramau lle gall delwedd gynrychioli mwy nag un eitem. | • Llunio siart bar o ddata wedi'u grwpio'n gyfartal.<br>• Llunio siart cylch mewn sefyllfaoedd lle mae 360° yn rhanadwy â chyfanswm yr amlder. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **3.3 Dadansoddi/Dehongli data** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>3.3.1 Dadansoddi a dehongli data | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 3.3.1 Dadansoddi a dehongli data | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Nodi'r eitem fwyaf cyffredin, er enghraifft y sleisen fwyaf mewn siart cylch, y bar talaf mewn siart bar. | • Darllen a chymharu gwerthoedd mewn siart bar neu graff llinell fertigol. | | • Dehongli siart cylch.<br>• Darllen gwerthoedd mewn siart bar ddeuol. |
| | | • Gwneud cymariaethau syml wrth edrych ar setiau o ddata, er enghraifft mwy na, llai na, mwyaf poblogaidd, lleiaf poblogaidd, y gwahaniaeth rhwng cyfansymiau. | • Gwneud cymariaethau rhwng graffiau gwahanol, gan gynnwys siartiau bar, pictogramau a graffiau llinell syml. | • Yn annibynnol, dod i gasgliad sylfaenol, er enghraifft sylwi ar duedd syml ar graff llinell. |
| | • Trefnu rhestr fach o rifau i ddarganfod y gwerthoedd uchaf ac isaf.<br>• Rhannu hyd at 20 o eitemau ffisegol yn gyfartal rhwng 2, 4, 5 neu 10 o bobl i ddarganfod y cymedr mewn ffordd anffurfiol. | • Trefnu rhestr fach o rifau i ddarganfod y modd a'r amrediad.<br>• Darganfod cyfartaledd cymedrig yn anffurfiol drwy rannu cyfanswm yn grwpiau hafal. | • Darganfod modd, canolrif nifer odrif o werthoedd, cymedr ac amrediad rhestr fach o hyd at 10 rhif. | • Darganfod canolrif nifer eilrif o werthoedd.<br>• Cyfrifo'r cymedr ar gyfer mwy na 10 rhif.<br>• Gwneud cymariaethau rhwng y modd, y canolrif neu'r cymedr ar gyfer dwy set o ddata, pob un yn cynnwys hyd at 10 rhif. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **3.4 Mesurau a ddefnyddir mewn bywyd pob dydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>3.4.1 Mesurau | | | | |
| **Cynnwys** | **Ymhelaethiad** | | | |
| | **Mynediad 1** | **Mynediad 2** | **Mynediad 3** | **Lefel 1** |
| 3.4.1 Mesurau | Dylai'r dysgwyr allu gwneud y canlynol: | | | |
| | • Defnyddio geiriau i ddisgrifio a gwneud cymariaethau rhwng eitemau o hyd, lled, uchder, màs neu gynhwysedd gwahanol.<br>• Trefnu eitemau yn ôl maint, pwysau neu hyd.<br>• Deall pwrpas offer mesur syml, gan gynnwys pren mesur, clorian, jwg mesur a chloc. | • Defnyddio unedau mesur metrig safonol pob dydd, gan gynnwys metrau a chentimetrau, gramau a chilogramau, litrau a mililitrau, oriau a munudau, graddau Celsius, a phunnoedd a cheiniogau, mewn cyd-destunau ymarferol cyfarwydd. | • Defnyddio mesurau metrig hyd, màs a chynhwysedd i gymharu a threfnu gwrthrychau. | • Trawsnewid rhwng unedau metrig hyd, màs a chynhwysedd, er enghraifft 420 cm i fetrau, 2.5 kg i gramau, a 750 ml i litrau. |
| | • Darllen graddfeydd uned syml o 0 i 20. | • Darllen gwerthoedd cyfanrif ar raddfa, gan gynnwys tapiau mesur a chloriannau, ar gyfer gwerthoedd hyd at 100. | • Defnyddio offer addas i fesur hyd, màs a chynhwysedd i gyfyngau hanner, chwarter a degfed, er enghraifft 7.8 cm. | • Defnyddio offer addas i fesur hyd, màs a chynhwysedd i lefel uwch o gywirdeb, gan gynnwys graddfeydd â mwy o gyfyngau, er enghraifft graddfa wedi'i marcio ar gyfyngau o 10 g hyd at 100 g, a graddfeydd nad ydynt yn ddigidol â gwerthoedd degol hyd at 2 le degol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Dewis uned fesur fetrig briodol mewn cyd-destun syml, cyfarwydd, er enghraifft defnyddio litrau nid metrau i fesur cyfaint dŵr. | • Nodi unedau metrig addas ar gyfer mesuriadau, er enghraifft uchder tŷ mewn metrau nid centimetrau, màs llwy mewn gramau nid cilogramau. | • Gwneud amcangyfrifon synhwyrol o fesuriadau metrig mewn sefyllfaoedd pob dydd. |
| | • Adnabod diweddbwynt, er enghraifft pan fydd amserydd wedi gorffen neu ar ba bwynt y mae dŵr yn cyrraedd llinell wedi'i marcio ar jwg. | • Sylweddoli pan fo canlyniadau'n rhesymol, er enghraifft sylwi pan fo rhywbeth yn rhy drwm neu'n rhy ysgafn. | • Amlygu dealltwriaeth o ganlyniadau'n ymwneud â mesuriadau, er enghraifft bod mesur yn anghywir yn effeithio ar rysáit. | • Cyflawni cyfrifiadau gyda mesurau mewn cyd-destunau arferol, er enghraifft graddio rysáit yn syml drwy ddefnyddio rhifau cyfan bach. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.